

Pentref yn elwa ar gymorth gosod llwyni

Dysgodd gwirfoddolwyr sgiliau gosod llwyni traddodiadol er mwyn trawsffurfio ffiniau caeau ym mhentref Marloes ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ystod Wythnos Genedlaethol Coed.

Ymunodd Wardeniaid Gwirfoddol Awdurdod y Parc â'r pentrefwyr er mwyn gweithio ar llwyn ger tŵr y cloc a thrawsffurfio llwyn oedd wedi gordyfu yn yr Ardal Hamdden ym mis Rhagfyr.

Arweiniodd Ceidwad y Parc Cenedlaethol Hayley Barrett y grŵp, gyda chymorth gan un o drigolion Marloes, y cyn Geidwad Malcolm Cullen.



Llun: APCAP

Digwyddodd y sesiwn gyntaf yn ystod Wythnos Genedlaethol Coed, a drefnir yn flynyddol gan Y Cyngor Coed, gan annog sefydliadau ac unigolion ledled y DU i wneud rhywbeth cadarnhaol dros eu coed a'u llwyni lleol.

Mae gosod llwyni'n ffordd draddodiadol o gynnal y llwyn er mwyn creu ffin ddiogel - yn y gorffennol byddai wedi cadw da byw i mewn neu allan, ond mae hefyd yn ffordd wych o ymestyn bywyd y llwyn. Trwy ei dorri ar ei waelod a chreu llwyn gan ddefnyddio brigau byw sydd wedi'u gosod, mae'n annog tyfiant newydd - yr un yw'r dull ar gyfer coedlannu coed.

Roedd hi'n ddiwrnod heulog tawel felly roedd

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP



PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

Cyrol 11 Rhifyn 1
Gwanwyn 2014

Yn y rhifyn hwn



Pentref yn elwa ar gymorth
gosod llwyni
Tudalennau 1-2



Beth Sydd o Dan y Bont?
Tudalennau 2-3



Canolfan Bywyd Gwylt
Cymru'n elwa ar Ynni Gwyrdd
Tudalen 4



Digwyddiad Gweld Bywyd
Gwylt Sir Benfro 2013
Tudalennau 5-6

2013 – Digwyddiadau
Diwrnod Ffwng y DU
Tudalennau 6-7

Astudio'r Gragen Grib
Borffor
Tudalennau 7-8

Arolwg Bywyd Gwylt yr Ardd
Sir Benfro – Diweddariad
Tudalen 9

Rheoliadau Amaethyddiaeth
Asesu Effaith Amgylcheddol
Tudalen 9

Digwyddiadau
Tudalennau 10-11

Manylion Cysylltu
Tudalen 12

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 1



hi'n braf cael bod allan yn y Parc Cenedlaethol yn dysgu sgil cadwraeth traddodiadol. Mae croeso i unrhyw un a hoffai roi cynnig arni – a'n helpu gyda chadwraeth y Parc – i ymuno â ni'r tro nesaf. E-bostiwrch

Hayleyb@pembrokeshirecoast.org.uk am ragor o fanylion.

Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ei gynllun Wardeniaid Coed Sir Benfro ei hun mewn cydweithrediad â'r Cyngor Coed. Mae'r cynllun yn darparu hyfforddiant ymarferol i helpu i ofalu am goed lleol ac i annog ymglymiad y gymuned trwy brosiectau ag ysgolion a grwpiau lleol.

Nid oes angen sgiliau penodol arnoch i ddod yn Warden Coed yn Sir Benfro, dim ond cariad at goed. Er mwyn cymryd rhan ffonwch Mike Higgins neu Celia Thomas ar 0845 345 7275 neu e-bostiwrch

treechampions@pembrokeshirecoast.org.uk

Hayley Barrett

Ceidwad

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Beth Sydd o Dan y Bont?

Un o'r pethau gwyh am blymio yn Sir Benfro yw bod rhywle diddorol i blymio ar bob diwrnod ac eithrio pan fo corwynt yn chwythu. Roedd haf 2011 yn un o wynt a glaw gan gyfyngu archwiliadau ar yr arfordir agored felly treuliyd llawer o'r tymor mewn lleoliadau cysgodol.

Wrth yrru dros bont Cleddau, ydych chi erioed wedi meddwl am yr hyn sy'n byw yn y dyfroedd tywyll oddi tani? Mae gan afon Cleddau amrediad llanw o 7m sy'n golygu bod cerhyntau cryfion iawn iddi ac amgylchedd sydd bron yn gyfan gwbl forol. Mae'r cerhyntau cryfion a llif y llanw'n creu dyfroedd sy'n llawn o blanton a bywyd morol amrywiol. Islaw'r bont mae wynebau creigiau serth wedi'u gorchuddio â sbyngau, hydroidau a bryosoaid, pob un yn

hidlo bwyd o'r dyfroedd. Wrth edrych yn agosach gwelwch grancod sbwng wedi'u cuddliwio'n wych a gwliethenni môr. Mae blodau'r gwynt yn edrych yn hardd ond mewn gwirionedd maent yn aros i gydio yn unrhyw beth sy'n dod yn rhy agos – gallant fwyta crancod cyfan! Cyflawnwyd arolygon Seasearch ar safleoedd rhwng Llangwm ac Angle Bay.

Yn ogystal â chofnodi cynefinoedd a rhywogaethau, roedd yr arolygon hefyd wedi cyfrif yr wystrysen frodorol, *Ostrea edulis*, sydd bellach wedi'i dosbarthu'n wasgarog i'r gwrthwyneb i ddigonedd o frenigen yr wystrys, *Crepidula fornicata*, rhywogaeth nad yw'n frodorol sy'n garped ar wely'r afon.

Sbwng moron carpiog, Francis Bunker



Yn 2012 cawsom haf! Yn ogystal â diwrnodau braf heulog cafwyd gwelededd o dan y dŵr hefyd sy'n fonws mawr wrth gynnal arolygon plymio. Mae Seasearch yn y gorffennol wedi cyflawni llawer o arolygon ar hyd arfordir mewnol Castell Martin rhwng Linney Head a St Govans Head. Mae'r creigiau calchfaen yn creu llwyfan calchfaen tua 12m i lawr wedi'i amgylchynu â thywod. Gyda'r moroedd tawel cawsom gyfle i archwilio 3-5 milltir alltraeth lle'r oedd siartiau'n dangos creigresi bach arunig ymhlith y gwastatiroedd tywod. Mae cerhyntau llawn cryfion yr ardaloedd hyn yn galluogi casgliad amrywiol o fywyd morol i




Blodyn y gwynt dahlia, *Urticina felina*.
Yr Athro David Kipling



ffynnu. Yn y dŵr bas, parciau gwymon a dolydd o algâu coch sy'n dominyddu gan ddarparu lloches a bwyd i bysgod a chrancod. Yn y dŵr dyfnach, roedd y creigiau'n llawn o chwistrelli'r môr, sbyngau a hydroidau – yr arbenigwyr ar fwydo trwy hidlo. Llenwodd ysglyfaethwyr cramennog yr agennau a chuddiodd pysgod tiriogaethol ymhlith y clogfeini.

Ardaloedd wedi'u heffeithio gan lif y môr oedd y thema eleni, gydag ychydig o blymio cyffrous i ddrifftiau oddi ar ochr orllewinol Grassholm ac un ar y 'ras gwyddau gwyllt' enwog oddi ar ochr orllewinol Skokholm. Yn y ddau leoliad, cafwyd creigiau mawr wedi'u gorchuddio â misglod glas gyda blodau'r gwynt dahlia mawr a chrancod yn ceisio lloches mewn unrhyw dwll cysgodol er mwyn peidio â chael eu llusgo ymaith!



Creigres Brimstone
Blaise Bullimore

Ffocws arbennig yn 2012 oedd adnabod chwistrelli'r môr sy'n arbennig o anodd. Chwistrelli'r môr yw'r Phylum Tunicata ac mae'r rhan fwyaf o lyfrau adnabod yn dibynnu ar samplu, dyrannu a microsgopau – nid yw hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth geisio cofnodi yn y maes. Mae plymwyr Seasearch yr Athro David Kipling a Sarah Bowen felly'n gweithio ar ganllaw ffotograffau adnabod Seasearch newydd er mwyn helpu i adnabod yn y maes. Er mwyn helpu yn hyn o beth, rydym wedi targedu safleoedd sy'n llawn o chwistrelli'r môr er mwyn galluogi samplu a ffotograffau er mwyn dilysu adnabyddiaeth ynghyd â chwrs hyfforddi yn nhymor yr haf. Mae'r canllaw ar hyn o bryd yn waith sy'n cael ei ddatblygu ond fe fydd yn ychwanegu at gasgliad a gynhyrchwyd gan Seasearch ac yn cael ei groesawu gan holl weithwyr maes morol.

Yn 2014, mae rhaglen o hyfforddiant a digwyddiadau plymio'n cael ei threfnu a fydd yn dechrau gyda chwrs Arsylwi ym Marloes ar 26/27 Ebrill. Am fanylion llawn y rhaglen ac i ddarllen yr adroddiad cryno llawn ar gyfer tymhorau 2011 a 2012, ewch i www.wmc.org neu cysylltwch â Kate Lock rumbalock@tiscali.co.uk

Kate Lock

Cydlynnydd Seasearch De a Gorllewin Cymru



Canolfan Bywyd Gwylt Cymru'n elwa ar Ynni Gwyrdd

Canolfan Bywyd Gwylt Cymru yng Nghilgerran



Mae gosod boeler biomas newydd yn lle'r hen system foeler yng Nghanolfan Bywyd Gwylt Cymru yng Nghilgerran wedi'i gwblhau o'r diwedd. Comisiynwyd y boeler biomas o Awstria yng nghanol mis Hydref. Dewiswyd y boeler oherwydd ei allu i ddefnyddio amryw ffynonellau tanwydd megis naddion pren, grawn, pelenni ac yn bwysicach ar gyfer safle Cilgerran, cyrs.

Mae ardaloedd helaeth o gyrs yn tyfu yng Nghorsydd Teifi sy'n gorchuddio rhan fwyaf y warchodfa. Rheolir y cynefin hwn yn flynyddol trwy gynllun torri'r cyrs sy'n helpu i atal cronni'r deunydd marw ar y safle ac i atal y gwely cyrs rhag sychu. Mae hefyd yn hybu tyfiant newydd. Yn ogystal, mae'n darparu deunydd i helpu cefnogi busnes un o Brif Dowyr Cymru ac mae bellach yn cyflenwi biomas y gellir ei naddu i'w ddefnyddio yn y boeler biomas. Bydd y boeler hefyd yn gweithio ar naddion pren o gynnyrch rheolaeth y warchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt leol er y bydd angen prynu'r rhan fwyaf ohonynt. Fodd bynnag, mae hwn yn ddewis llawer rhatach na'r LPG a ddefnyddiwyd cynt.

Yn dilyn llawer o ymchwil a datblygu a chefnogaeth gan Gronfa Datblygu Cynaliadwyedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae'n wych gweld y boeler ar waith. Mae gallu defnyddio biomas o amryw gynlluniau rheoli gwarchodfeydd natur yn gam gwych at ddod yn sefydliad mwy cynaliadwy a hyrwyddo defnydd ynni adnewyddadwy i'r cyhoedd.

Torri Cyrs yng Nghorsydd Teifi



Bu'r boeler yn fuddsoddiad ariannol enfawr i'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt ond mae'n helpu i ateb ymrwymiad yr elusen i ddefnyddio ynni adnewyddadwy yn ei chanolfannau ymwelwyr a swyddfeydd. Gall yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt bellach hawlio'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy, lle mae'r llywodraeth yn helpu tuag at y tariff am bob uned o ynni a gynhyrchir. Amcangyfrifir os nad oes problemau, y dylai'r fenter dalu cost y boeler erbyn 2023.

Nathan Walton

Swyddog Bywyd Gwylt
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a
Gorllewin Cymru [http://
www.welshwildlife.org/](http://www.welshwildlife.org/)



Digwyddiad Gweld Bywyd Gwylt Sir Benfro 2013

Cynhaliodd Fforwm Arfordirol Sir Benfro 'Ddigwyddiad Gweld Bywyd Gwylt Sir Benfro' cofiadwy arall ddydd Mercher 20 Tachwedd yn Theatr Merlin, Coleg Sir Benfro. Hwn oedd y pumed digwyddiad gweld bywyd gwylt a drefnwyd gan dîm Fforwm Arfordirol Sir Benfro i ddathlu amrywiaeth bywyd gwylt Sir Benfro. Nod y digwyddiad oedd codi ymwybyddiaeth am ein hamgylcheddau a'n bywyd gwylt lleol er mwyn sicrhau y cânt eu gwerthfawrogi a'u diogelu ar gyfer y dyfodol.

Roedd y digwyddiad, gyda chefnogaeth hael The Crown Estate ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn llwyfan i

roi'r newyddion diweddaraf i'r cyhoedd ar waith Siarter Awyr Agored Sir Benfro a'r grwpiau Cod Morol wrth ddatblygu a chyhoeddi cyngor a hyfforddiant arfer gorau ar gyfer y rheini sy'n dymuno mynd allan a manteisio i'r eithaf ar amgylcheddau awyr agored ysblennydd a bywyd gwylt Sir Benfro.

Rhannodd chwe siaradwr storïau a lluniau o'r bywyd gwylt maent wedi'i weld yn Sir Benfro dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cyflwynodd **Kate Lock** luniau hyfryd a siarad am y bywyd gwylt o dan y dŵr yn llif cerhyntau Afon Cleddau ac ar hyd arfordir deheuol Sir Benfro, a amlygodd gwahanol sbyngau, gwllthod y môr, crancod a physgod sy'n byw yn nyfroedd Sir Benfro.

Rhannodd **Cliff Benson** storïau, lluniau a fideos o'r rhywogaethau llamidyddion, dolffiniaid a morfilod y mae wedi'u gweld ar hyd arfordir Sir Benfro.

Dywedodd **David Redhead** wrthym am Frithribinau Sir Benfro; mae sawl rhywogaeth



Seal Pup at St Non's
Llun: Mat Mackenzie

o'r pili pala'n anodd iawn eu gweld tra bo eraill yn hawdd eu gweld yn eich gardd neu wrth gerdded o amgylch y Sir os ydych yn gwybod lle i edrych.

Diddanodd **Marten Lewis** y dyrfa trwy siarad am ei waith gyda Chanolfan Darwin a dangosodd luniau o archwilio pyllau llanw a glannau creigiog yr ardal trwy lygaid pobl ifanc leol.

Esboniodd **Sue Burton a Geoff Liles** pam mae Sir Benfro'n lle cystal i weld dyfrgwn. Esboniwyd hefyd peth o'r gwaith sy'n digwydd i ddeall arferion a thiriogaeth ein Dyfrgwn môr. Diddanwyd y gynulleidfa'n fawr gan frwdfrydedd, gwybodaeth a lluniau anhygoel **Julian Cremona** o weision y neidr a mursesnod sy'n hawdd eu gweld yn yr ardal.

Yn rhan o'r digwyddiad, cynhaliodd Fforwm Arfordirol Sir Benfro gystadleuaeth ffotograffiaeth bywyd gwyllt a oedd yn agored i bawb. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran a LLONGYFARCH y llun buddugol, 'Seal Pup at St Nons' gan Mat Mackenzie.

Paul Renfro

Cydylynydd Hamdden Gynaliadwy
Fforwm Arfordirol Sir Benfro

<http://www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk/>

2013 – Digwyddiadau Diwrnod Ffwng y DU

Caiff ffyngau eu hystyried yn aml yn Sinderela byd astudiaethau natur. Anaml iawn maent yn denu brwdfrydedd a chefnogaeth cynulleidfa ehangach yn y modd y gwna adar, ystlumod a gwenyn er enghraifft. Mae ffyngau'n fwy tebygol o gyrraedd penawdau newyddion pan fo creadur anffodus wedi bwyta un gwenwynig neu pan fo pathogen ffwngaid newydd yn bygwth dinistrio agwedd ar y byd naturiol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ffyngau sy'n creu problem mewn gwirionedd – a hebddynt, ni allai ac ni fyddai anifeiliaid a phlanhigion yn bodoli.

Efallai bod pethau'n newid wrth i Gymdeithas Mycoleg Prydain a Chymdeithas Grwpiau Ffyngau Prydain weithio gydag eraill i godi proffil ffyngau a'u cadwraeth. Eleni cynhaliwyd y diwrnod ffwng cenedlaethol cyntaf erioed ledled y DU - pan gafwyd rhaglen o ddigwyddiadau gyda ffwng yn thema iddynt ar draws y DU, gyda nifer ohonynt ar neu'n agos at y dyddiad penodedig sef 13 Hydref. Y bwriad oedd adeiladu ar lwyddiant Diwrnod Ffwng Cymru yn 2012 a drefnwyd gan Bruce Langridge a'i gydweithwyr o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.



Ffotograffau yn
Amgueddfa Arberth
Llun: Kate Smith

O'n safbwynt ni, dechreuodd tymor yr hydref ym mis Medi gydag arddangosfa o ffotograffau a phosteri dros gyfnod o fis yn Amgueddfa Arberth. Ariannwyd argraffu a gosod y ffotograffau a'r poster ar gyfer yr arddangosfa'n hael gan Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru. Defnyddiwyd nifer o eitemau'r arddangosfa wedyn ar gyfer arddangosfa Diwrnod Ffwng y DU yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Dechreuodd digwyddiadau maes gyda chyrch eithaf gwlyb ar 13 Hydref yn Freshwater East. Trefnwyd hyn mewn cydweithrediad â grŵp Gwarchodfa Natur



Freshwater East dan arweiniad Vicky Tomlinson. Cefnogwyd y cyrch yn dda a chafwyd casgliad eithaf da o rywogaethau gwair a thwyn, er nad ar raddfa'r flwyddyn flaenorol.



Twyni Tywod
Llun: Robin Crump

Dechreuodd y penwythnos canlynol gyda menter ar y cyd â'r Cyngor Astudiaethau Maes - Bioblitz ffwngaid yng Nghanolfan Maes Orierton gyda'r Rheolwr Gweithrediadau, Tom Stamp. Tanysgrifiwyd yn llawn i'r digwyddiad hwn yn dilyn hysbyseb yn y papur lleol - a'r tro hwn cadwodd y glaw i fwrdd (ar y cyfan). Bu'n ddigwyddiad teuluol gwych yn cynnwys nifer o bobl nad oeddent wedi cymryd rhan mewn cyrch o'r blaen. Er y methodd y lawntiau â rhoi'r rhywogaethau gwair a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaed yn fwy nag iawn am hyn yn y coetir. Barnwyd bod y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol gyda



Gwaith dosbarth yn dilyn taith maes
Llun: Trevor Theobald

gwahoddiad i'w ailadrodd tymor yr hydref nesaf.

Roedd y diwrnod canlynol yn fwy ffurfiol gyda digwyddiad hyfforddi a chofnodi ffwng yng Nghanolfan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Ystangbwl. Tanysgrifiwyd yn llawn i'r digwyddiad hwn, gyda thri o ymwelwyr yn teithio o Forgannwg. Mwynhaodd y grŵp dywydd braf, golygfeydd gwych, casgliad da o rywogaethau a chinio.... beth arall sydd ei angen?

Daeth y tymor i ben gyda thaith hynod lwyddiannus i Goetir Ffynone (Gogledd Sir Benfro) dan arweiniad Pat O'Reilly. Mae Pat yn adnabod y safle hwn yn dda iawn ac er nad oedd mor ffrwythlon â blynyddoedd blaenorol, cafodd ein cofnodwyr brwdfrydig ddigon o rywogaethau i gadw Pat yn brysur yn eu hadnabod. Mae Pat wedi cytuno'n garedig i ni ddychwelyd y flwyddyn nesaf.

David Harries

Rhwydwaith Cofnodi Ffwng Sir Benfro

<http://www.pembsfungi.org.uk/>

Astudio'r Gragen Grib **Borffor, *Gibbula*** ***umbilicalis***

Mae dyfrffordd Aberdaugleddau'n llawn bywyd gwyllt (gweler yr erthygl 'Beth Sydd o Dan y Bont?'). Fodd bynnag, mae'r sianel ddofn gysgodol hon hefyd wedi gwneud yr Aber yn un o ganolfannau ynni allweddol y DU ac yn ganolfan ar gyfer diwydiant lleol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n monitro ystod eang o baramedrau amgylcheddol er mwyn sicrhau nad yw gweithgarwch diwydiannol ar hyd yr Aber yn effeithio'n niweidiol ar fywyd gwyllt yr ardal. Fodd bynnag, nod astudiaeth newydd dan arweiniad ymchwilwyr yng Nghanolfannau Astudiaethau Maes Orierton a Dale Fort yw monitro un paramedr (tymheredd) trwy ddull newydd.



Mae Canolfannau Maes Dale Fort ac Orierton yn ddwy Ganolfan sydd â hanes hirfaith o ymchwil morol, sydd wedi sefydlu astudiaeth forol newydd i gefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gasglu data tymheredd. Gyda chynghor a chefnogaeth gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gymdeithas Bioleg Forol, mae aelodau'r tîm addysg yn y ddwy ganolfan yn cynnal arolygon misol ar *Gibbula umbilicalis* (Cragen Grib Borffor) ar bedwar safle, tri yn yr Aber ac un y tu allan i'r Aber fel rheolydd.

Mae gonadau o sampl fach o boblogaeth y *G.umbilicalis* yn cael eu dadansoddi i weld a oes newid yn y cyfnodau aeddfedu ymhlith y poblogaethau, sef canlyniad posib i lygredd thermol. Yn ogystal â'r arolwg hwn, cynhelir arolwg cyffredinol MarClim y Gymdeithas Bioleg Forol ar y safle a chofnodir tymheredd y dŵr ymhob safle'n ddyddiol.

Bydd y data'n helpu i hysbysu rheolaeth leol yr Aber, yn ogystal â chyfrannu at wybodaeth academiaidd ar effeithiau tymheredd amgylcheddol ar foldroediaid morol eraill yn sgil newid yn yr hinsawdd a moroedd sy'n cynhesu.

Er mwyn dysgu rhagor, cysylltwch â Chanolfan Astudiaethau Maes Orierton ar: 01646 636205.

Jack Burrows

Cynorthwydd Addysg
Canolfan Astudiaethau Maes Orierton



Arolwg Bywyd Gwyllt yr Ardd Sir Benfro – Diweddariad

Mae prosiect Arolwg Bywyd Gwyllt yr Ardd 2013 yn Sir Benfro wedi dod i ben gydag ychydig dros 150 o arolygon wedi'u cyflwyno gan breswylwyr. Nid yw'r data a dderbyniwyd wedi'u dadansoddi eto ond wrth edrych ar y canlyniadau hyd yn hyn gallwn gadarnhau bod ein gerddi'n hafan dda ar gyfer nifer o rywogaethau gwahanol. Roedd y gerddi a arolygwyd yn amrywio o erddi teras cefn bach i dir sy'n estyn dros sawl erw. Rhywogaeth sydd wedi ymddangos sawl gwaith yw'r Ysgyfarnog lle mae clwstwr o gofnodion i'w gweld tua Gogledd y Sir, yn arbennig yn ardal cwm Nanhyfer. Gellid ystyried bod gwaith archwilio maes pellach ar y mamolyn hwn yn gwella dealltwriaeth o'i ddosraniad gan fod cofnodion yn brin ar hyn o bryd. Roedd 2013 yn sicr yn flwyddyn well na'r rhan fwyaf o ran tywydd felly cofnodwyd niferoedd da o adar a rhywogaethau di-asgwrn-cefn. Bydd yn ddiddorol gweld amrywiaeth y rhywogaethau mewn ardaloedd penodol wrth ddadansoddi'r data ac er bod y prosiect wedi dod i ben, bydd yr arolwg yn dal i fod ar gael ar-lein er mwyn gallu cyflwyno cofnodion pellach a'u hanfon i'r Ganolfan Cofnodion Lleol. Parhewch i gofnodi unrhyw fywyd gwyllt a welwch yn eich gardd ar: <http://www.welshwildlife.org/pembrokeshire-garden-survey>

Nathan Walton

Swyddog Bywyd Gwyllt
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a
Gorllewin Cymru
<http://www.welshwildlife.org/>



Rheoliadau Amaethyddiaeth Asesu Effaith Amgylcheddol

Pwrpas Asesu Effaith Amgylcheddol yw caniatáu newidiadau amaethyddol nad ydynt yn effeithio'n ddifrifol ar yr amgylchedd, wrth ddiogelu tir sydd ag arwyddocâd amgylcheddol, hanesyddol neu ddiwylliannol pwysig.

Os ydych yn bwriadu cynnal prosiect gwella amaethyddol ar unrhyw dir sydd heb ei drin neu dir lled naturiol, bydd angen i chi dderbyn penderfyniad sgrinio gan Lywodraeth Cymru cyn parhau. Mae tir heb ei drin neu dir lled naturiol yn unrhyw ardal sydd â llai na 25% o rywogaethau amaethyddol gwell (e.e. Rhygwellt Parhaol a/neu'r Feillionen Wen). Gall hyn gynnwys ystod o diroedd, o ddolydd isel i weundir. Gall enghreifftiau o brosiectau gynnwys amaethu (aredig, ogedu, palu â pheiriant ac ati), ail-hau hadau, draenio newydd a chlirio prysg. Ni fydd angen sgrinio tir amaethyddol presennol a wellwyd yn sylweddol (e.e. caeau silwair) os yw'n cynnwys dros 25% o Rygwellt a/neu'r Feillionen Wen).

Bydd angen i chi gyflwyno Ffurflen Gais Sgrinio [EIA2 (W)] i'ch Swyddfa Ranbarthol Llywodraeth Cymru leol ac aros am ymateb cyn parhau. Mae ffurflenni cais ar gael o'ch Swyddfa Ranbarthol neu o wefan Llywodraeth Cymru. Gall hyd at 35 diwrnod fynd heibio cyn i chi dderbyn ymateb, felly blaengynlluniwch. Ni chodir tâl am y broses gwneud cais sgrinio ac mae penderfyniadau'n ddilys am 3 blynedd.

Am ragor o wybodaeth neu i drafod gwaith arfaethedig cyn gwneud cais, cysylltwch â'r tîm Asesu Effaith Amgylcheddol trwy'ch Swyddfa Ranbarthol Llywodraeth Cymru leol yng Nghaerfyrddin ar 01267 225 300. Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.wales.gov.uk/eiaagriculture



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Ionawr - Ebrill



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
20 Ion	Cwrdd â Morfilod	Trafodaeth â lluniau gan Lyndon Lomax. 19.30 – 21:30 yng Nghanolfan Gymunedol Furzy Park, Hwlfordd.	John Steer: 01646 278966
21 Ion	Llwybr Arfordirol Penfro (darn gogleddol)	Bydd yr ecolegydd arfordirol John Archer-Thompson yn siarad am ddaear a hanes naturiol y Llwybr Arfordirol. 19:30 – 21:15 yng Nghanolfan Gymunedol Tŷ Ffowndri, Penfro.	Lynda@thehicklings.co.uk
5 Chwef	Ynys Skomer	Trafodaeth â lluniau gan wardeniaid Skomer, Birgitta Bueche ac Eddie Stubbings. 19:30 – 21:30 yn Neuadd yr Eglwys Gatholig, Aberteifi.	Margaretpowellcal@hotmail.com
18 Chwef	Maes Tanio Castell Martin – Hanes a Chynefinoedd	Trafodaeth gan Lynn Houlston, Warden MoD Castell Martin. 19:30 – 21:15 yng Nghanolfan Gymunedol Tŷ Ffowndri, Penfro.	Lynda@thehicklings.co.uk
22 Chwef	Taith Gerdded Rhydwy ac Adar Hela – Dale	Cwrdd yn y maes parcio ar gyfeirnod grid SM809 066 am daith gerdded ger Dale 10:30 – 15:00	John Steer: 01646 278966
24 Chwef	Cipolwg ar y Gwanwyn yng Nghastell Carew.	Cyffrowch a dihunwch i'r gwanwyn yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r digwyddiadau hwyl i'r teulu'n eich annog i fynd allan, archwilio, darganfod a chreu. 13:00 – 14:30	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: 01834 845 040
24 Chwef	Adeiladu Gwesty Bwystfilod Bychain	Prynhawn o hwyl yn helpu i adeiladu gwesty i fwystfilod bychain yn y Ganolfan Bywyd Gwyllt, Cilgerran. 14:00 - 16:00	Sharon yn y Ganolfan Bywyd Gwyllt: 01239 621600
25 Chwef	Dihunwch i Fywyd Gwyllt yng Ngerddi Coetir Colby	Archwiliwch ddolydd, coedwigoedd a llynnoedd coetir Colby wrth i natur ddihuno o'i chwsg dros y gaeaf. Taith gerdded hamddenol o amgylch Colby yn edrych am arwyddion o'r gwanwyn, gyda gweithgaredd crefft i ddilyn. 11:00 – 15:00.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: 01834 845 040



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Ionawr - Ebrill



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
26 Chwef	Dihunwch i Fwyd Gwyllt yng Ngerddi Coetir Colby	Archwiliwch ddolydd, coedwigoedd a llynnoedd coetir Colby wrth i natur ddihuno o'i chwsg dros y gaeaf. Taith gerdded hamddenol o amgylch Colby yn edrych am arwyddion o'r gwanwyn, gyda gweithgaredd crefft i ddilyn. 11:00 – 15:00.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: 01834 845 040
28 Chwef	Cipolwg ar y Gwanwyn yng Nghastell Henllys.	Cyffrowch a dihunwch i'r gwanwyn yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r digwyddiadau hwyl i'r teulu'n eich annog i fynd allan, archwilio, darganfod a chreu. 13:00 – 14:30.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: 01834 845 040
5 Maw	Ydy Gwenyn Mêl yn Frodorol ac A Oes Ots?	Trafodaeth gan John Dudman, Cymdeithas Gwenwynwyr Sir Benfro. 19:30 – 21:30 yn Neuadd yr Eglwys Gatholig, Aberteifi.	Margaretpowellcal@hotmail.com
17 Maw	Byd Morol Sir Benfro	Trafodaeth â lluniau gan Sue Burton, Swyddog SAC Morol Sir Benfro. 19.30 – 21:30 yng Nghanolfan Gymunedol Furzy Park, Hwlfordd.	John Steer: 01646 278966
18 Maw	Gweision y neidr a Mursennod a Sut i'w Hadnabod	Trafodaeth gan Dr Wendy Harris. 19:30 – 21:15 yng Nghanolfan Gymunedol Tŷ Ffowndri, Penfro.	Lynda@thehicklings.co.uk
23 Maw	Cerdded yr Aber, Trefdraeth	Taith gerdded o amgylch yr aber yn Nhrefdraeth er mwyn edrych am adar, rhydwyr ac adar hela. Cwrdd ym maes parcio Parrog i ddechrau am 10:30.	John Steer: 01646 278966
15 Ebrill	Prosiectau Bywyd Gwyllt Cymunedol yn Sir Benfro a'r cyffiniau	Newyddion ar brosiectau cymunedol yn yr ardal. 19:30 – 21:15 yng Nghanolfan Gymunedol Tŷ Ffowndri, Penfro.	Lynda@thehicklings.co.uk
26 – 30 Ebrill	Cwrs Adnabod Gwymon, Dale Fort.	Cwrs pum niwrnod ar adnabod gwymon. Am ragor o wybodaeth, ewch i: http://www.field-studies-council.org/media/872081/identifying-seaweed.pdf	Ffôn: 0845 3307365 E-bost: enquiries.df@field-studies-council.org

Cylchlythyrau Bioamrywiaeth

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PBSB

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth**, Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PBSB

Cymdeithas y Tirfeddianwyr		
Undeb Amaethwyr Cymru		Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro 
Grwp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwyllt		Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 
Cadwch Gymru'n Daclys		Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu 
 MANOR HOUSE Wildlife Park		Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru 
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru		Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar 
Cyfoeth Naturiol Cymru		Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 
Cymdeithas Gymunedol Gyfyngedig 21C Sir Benfro		 Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyngor Sir Penfro		Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru 

